



ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR TREF ABERTEIFI

BLWYDDYN DDINESIG 2021-22

Rhagymadrodd

Mae Cyngor Tref Aberteifi yn gwasanaethu ardal Aberteifi a'i phoblogaeth o tua 3,113 o drigolion. Mae ganddi 14 o Gynghorwyr, sy'n gwasanaethu wardiau Mwldan (6 cynghorydd) Rhyd-y-Fuwch (4 cynghorydd) a Teifi (4 cynghorydd).

Y Cynghorwyr Tref yn ystod cyfnod 2021/22 oedd:

Debra Griffiths (Maer)	John Adams-Lewis
Trystan Phillips (Dirprwy Faer)	Siân Maehrlein
Clive Davies	Catrin Miles
Elaine Evans	Steffan Morgan
Graham Evans	Yvonne O'Neill
Richard Jones	Morvenna Richards
Wyn Jones (ymadawedig)	Shan Williams

Mae'r Cyngor Tref yn cyflogi un aelod o staff rhan amser – Clerc y Dref, Eleri Maskell. Maent hefyd yn cyflogi John Morris, bachan deche, ar sail hunangyflogedig. Cyngor Tref Aberteifi sy'n gyfrifol am:

- gaeau Brenin Siôr V a'r ardaloedd chwarae cyfagos
- maes chwarae Pentop
- goleuadau Nadolig
- meinciau a dodrefn stryd
- arddangosfeydd a basgedi blodau
- darparu grantiau ariannol a chymorth arall i sefydliadau lleol ac achosion da

Amcanion Cyngor Tref Aberteifi

Darparu gwasanaeth da a gwerth ei arian i bobl Aberteifi drwy wella lles ledled y dref.

Parhau i ddatblygu strategaeth a chynllun gweithredu ar gyfer y cyfnod 2022-2027 (mabwysiadwyd cynllun blynyddol cychwynnol ym mis Rhagfyr 2021).

Creu strategaeth ymgysylltu ac ymgynghori i alluogi'r cynghorwyr a'r clerc i ymgysylltu'n eang â chymunedau amrywiol Aberteifi, y genhedlaeth iau a hŷn, a nodi blaenoriaethau o'r ymgysylltu a'r ymgynghori hwnnw.

Cyfrannu yn helaeth at "Gynllun Lle" ar gyfer Tref Aberteifi, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Creu "Cynllun Lle Digidol" ar gyfer Tref Aberteifi a pharhau i arwain y ffordd gyda thechnolegau newydd fel y "Rhyngwyd Pethau".

Ailagor y toiledau yn Chancery Lane o dan gyfrifoldeb y Cyngor Tref gan adfer gwasanaeth hanfodol i ddod ag ymwelwyr i ganol y dref.

Parhau i weithio'n agos gyda chynghorau tref a chymuned eraill.

Crynodeb ariannol

Praesept y Cyngor yw prif ffynhonnell incwm y Cyngor ac mae'n cynrychioli swm y dreth gyngor a delir gan aelwydydd yn Aberteifi a ddyrennir i Gyngor y Dref. Y praesept blynyddol ar gyfer 2021-22 oedd £83,995.47 am y bumed flwyddyn yn olynol. Mae'r dreth gyngor eiddo band D yn cyfateb i £46.96 fesul cartref. Incwm arall a dderbyniwyd yn y flwyddyn yw £1,375 mewn rhent gan y Clwb Bowlio a'r Clwb Rygbi a £128.25 mewn arian grant. Mae adroddiad llawn incwm a gwariant i'w weld ar ein gwefan. Mae'r cyngor yn cadw cronfeydd wrth gefn o £40,000 i ddelio ag argyfyngau annisgwyl.

Aeth cyfanswm o £11,914 i elusennau ac achosion da yn y dref y llynedd. Roedd y buddiolwyr yn cynnwys Theatr Mwldan, Theatr Byd Bychan, Gefeillio Aberteifi a Brioude, Castell Aberteifi, Pwll Nofio Aberteifi, Clybiau Pêl-droed iau Aberteifi a Llandudoch, Age Cymru Dyfed, Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Chyfeillion Ysgol Penparc, Elusen Ambiwlans Awyr Cymru, Relate Cymru, Cruse yr elusen profedigaeth, canolfan plant Jig-So a grŵp Sied Cardi Men 2 Men.

Adroddiad Dyletswydd Bioamrywiaeth i Lywodraeth Cymru

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6 Adroddiad Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chadernid Ecosystemau:

Mae'r Cyngor yn rheoli rhai mannau gwyrdd a'i nod yw cynyddu pwysigrwydd y lleoedd hyn trwy groesawu arfer gorau i annog bioamrywiaeth yn yr ardaloedd hyn. Mae cynllun gweithredu datblygu'r cyngor yn cynnwys gosod ffin werdd naturiol o goed, llwyni a blodau gwyllt yn lle'r hen ffensys wedi torri yng nghae Brenin Siôr V. Y nod hefyd yw defnyddio technoleg newydd, sef synwyrddion sy'n gysylltiedig â phrosiectau'r Rhyngwyd Pethau o amgylch y dref, i wella bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau. Ceisiwn osod synwyrddion ansawdd aer, synwyrddion monitro ansawdd dŵr yn ein hafonydd a'n harfordiroedd ac ati wrth i'n prosiect ddatblygu ac wrth i gyllidebau ganiatáu.

Nodyn personol gan y Faeres ar ddiwedd ei blwyddyn ddinesig

Hoffwn ddiolch i'm cydweithwyr a'r clerc am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Oherwydd y cyfyngiadau Covid a oedd yn parhau mewn grym yn ystod fy mlwyddyn yn y swydd, cwtogwyd rhywfaint ar y swyddogaethau blynyddol, ond serch hynny rwyf wedi mwynhau'r rôl yn fawr.

Yr achlysuron nodedig yw'r digwyddiadau cerddoriaeth fyw a gynhaliwyd dros bedwar penwythnos yr haf diwethaf a drefnwyd i godi hwyl ar ôl cyfnodau clo Covid ac i adfywio canol y dref drwy annog ymwelwyr. Ailgyflwyno gwibdaith yr Henoed, pan wnaethom fwynhau pryd o fwyd cofiadwy yn lleoliad bendigedig Castell Aberteifi. Dychwelodd Gwasanaeth y Cadoediad eleni, dyddiad pwysig iawn i anrhydeddu'r rhai a fu farw a dangos ein parch. Daeth côr o Ysgol Uwchradd Aberteifi, y Grinch a rhai o'i ffrindiau i ymuno â mi wrth droi'r goleuadau Nadolig ymlaen.

Braf oedd agor mosaig yn ein gardd Brioude ac ymuno yn y dathliadau gyda'n ffrindiau o Brioude i nodi hanner canmlwyddiant gefeillio ein dwy dref ddiwedd mis Ebrill. Am ddiwrnod benedegedig a gawsom ar ddydd Sadwrn Barlys. Rydym mor ffodus i weld y diwrnod traddodiadol hwn yn dychwelyd ar ôl asbenoldeb o ddwy flynedd; roedd yn ddigwyddiad hyfryd i gloi fy nghyfnod yn y swydd. Ar ben hyn oll, mynychwyd nifer o giniawau, agoriadau ac achlysuron eraill.

Fy elusennau o ddewis eleni sydd wedi cael cymorth ariannol o Gronfa'r Maer yw Area 43 a Gofal Canser Aberteifi. Rhoddwyd £640 i Area 43 i gynorthwyo'r grŵp i ddatblygu ei leoliad newydd ym Mhendre. Mae £500 wedi'i roi i Ofal Canser Aberteifi i gydnabod y gwaith eithriadol y maent yn ei wneud yn yr ardal.

Diolch yn fawr.

Y Cynghorydd Debra Griffiths.